

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Mai 14ddeg 2014
am 7 - 0 o'r gloch.**

1. Croeso - Agorwyd y Cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd Cyng. G Moore, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol.

Presennol - Cynghorwyr Gareth Moore (Is-Cadeirydd), Emlyn Jones, Mary Ellis, Dafydd Roberts, Ann Roberts, Lewis Davies, Carwyn Jones, Ruth Roberts, Delyth Jones a Geraint Parry (Clerc).

2. Ymddiheuriadau:-

Alwyn Rowlands, Alan Owen a Wyn Hughes.

Dilyn penderfyniad gan y Cadeirydd i ymddiswyddo, cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan yr Is-Gadeirydd.

Penderfynwyd mynd yn syth i drafodaeth cais cynllunio Tafarn y Rhyd. Aelodau cyhoedd yn bresennol - J Woods, W Hughes, H a E Morgan.

3. Cofnodion

Derbyniwyd Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 9fed o Ebrill, fel rhai cywir gan Cyng. A Roberts ac eiliwyd gan Cyng. R Roberts wrth newid pwynt 10.

Bawb i anfon ymlaen unrhyw faterion sydd angen ei godi, wythnos o flaen y cyfarfod nesaf i'r Clerc.

4. Materion yn Codi o'r Cofnodion

4.1 **Sgwâr Tawelfan** - penderfynwyd ble i leoli'r ddwy fainc. Angen ei gosod erbyn canol mis Mehefin. Cyng. D Jones wedi bod yn llwyddiannus cael grant "Tidy Wales" a "Tidy Towns" er mwyn cael gweithio gyda'r ieuenctid i blannu blodau a gwaith chwynnu.

4.2 **Wefan y Cyngor Cymuned** - Clerc wedi anfon ymlaen rhestr cyswllt cynghorwyr.

4.3 **Giatiau'r Eglwys** - Gydag un giât, nid yw'r bollt yn cyd-fynd gyda'r twll yn y maes parcio. Clerc i weithredu. Cyng. A Roberts - mae angen peintio'r giatiau bach.

4.5 **Giât ar lwybr troed Gwelfor** - Swyddog Ardal o Harddwch y Cyngor Sir wedi bod ar y safle, disgwyl gwybodaeth.

4.6 **Carthffosiaeth** - Llwydd cerrig wedi cael ei gosod ym maes parcio'r Neuadd.

4.7 **Llwybr concrit Tawelfan** - Cyng. L Davies wedi trafod y mater gydag Adran Tai, Cyngor Sir. Clerc i ysgrifennu ar Pennaeth Adran Tai. Nid oes mynediad i gadair olwyn i'r tai ger y llwybr ac mae gwyneb llwybr troed yn anwastad.

4.8 **Clawdd ar dop allt Mariandyrus** - Cyng. L Davies wedi cysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cael torri'r clawdd ger Llwyn Onn.

4.9 **Gamfa Cerrig** - wedi cael cwyn gan John Woods, cerrig yn rhydd ar y gamfa sydd yn croesi o dir Penmarian Mawr i lôn Tros Marian. Clerc wedi codi'r mater gyda swyddog AHNE.

5.0 **Adeiladu Ward Cymunedau Seiriol** 20/05/14 am 6.30yh - Cyng E Jones wedi cytuno ymuno i'r cyfarfod gyda'r Is-Gadeirydd.

5.1 **Gwaith Awdit 2013/14** - wedi ei gwblhau. Is-Gadeirydd ar Clerc yn arwyddo ffurflen. Clerc I weithredu erbyn 30/05/14.

5. Datgan Diddordeb

- Cyng. L Davies a Cyng. C Jones ar geisiadau 35C110A a 35C316.
- Cyng. G Moore ar drafodaeth Neuadd y Pentre'
- Cyng. D Jones ar drafodaeth Grŵp Cymunedol

6. Sylwadau Ceisiadau Cynllunio

• Cais 35C110A - cais llawn ar gyfer dymchwel y gyn tafarn ynghyd a chodi 6 annedd fforddiadwy yn Tafarn y Rhyd - pryder a godwyd gan bobl leol, y pwyntiau canlynol:-

- Pwy sy'n berchen ar ffordd i'r safle
- Mae problem enfawr gyda charthion yn y rhan yma o'r pentre'
- Gyda chymaint o dai ar y safle, fydd problem gyda mynediad i'r ffordd fawr.
- Mae'r safle yn agos iawn i dai cyfagos
- Nid yw'r cynllun yn cydweddu gydag eiddo cyfagos

• Cais 35C316 cais llawn ar gyfer dymchwel y modurdy presennol ynghyd ac addasu ac ehangu yn Tyn Caeau, Caim, Penmon - dim sylwad.

7. Adroddiad gan y Cynghorwyr Lleol

- 7.1 Wedi ymuno a chyfarfod grŵp "Ffrindiau Llangoed" wrth ddewis Delyth Jones fel Cadeirydd. Wedi cyfarfod aelod o Medrwn Môn gan lenwi ffurflen grant am £6,000 i bwrcasu pecyn chwarae. Os bydd y cais yn llwyddiannus, cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned pwrcasu'r eitem chwarae gydag arian grant ac ad-dalu Taw i'r grŵp.
- 7.2 Peipen Bont Glan Llyn wedi siltio. Cyngor Sir i gysylltu â Bwr Dwr.
- 7.3 Tyllau lonydd lleol – swyddog o'r Cyngor Sir i edrych ar y sefyllfa.
- 7.4 Trwsio'r palmant o Fiwmares tuag at Llangoed - Cyngor Sir am wneud cais am grant.
- 7.5 Bin wedi ei osod nawr ger yr Ysgol.
- 7.6 Nid oedd gwasanaeth sbwriel wedi ymweld â rhannau o'r pentre' yn ddiweddar. Bin maes chwarae plant wedi ei wagio.
- 7.7 Wedi cael cwyn bod clawdd tŷ pen yn beryglus ger mynediad i Pont y Brenin. Cyngor Sir i edrych ar y sefyllfa.

8. Neuadd y Pentre'

Cyng. G Moore yn adrodd fod parti wedi trefnu ar 6/06/14, cychwyn am 5.30. Hefyd parti priodas wedi ei drefnu ar 21/06/14.

Awgrymwyd gallai glanhau'r Neuadd cyn i unrhyw ddigwyddiad cael ei gynnal, er mwyn bydd yn haws i adael mewn cyflwr da cyn digwyddiad arall. Cyng. G Moore yn cytuno mynd ar bwynt yma ymlaen i'r pwyllgor.

9. Prosiect Afon Lleiniog

Cyfarfod 14/05/14 – Ruth, Emlyn, Simon ar Clerc.

- Contract Glastir wedi caniatáu, contract 5 mlynedd. Gwaith 2014/15 yw rheoli'r ffrom lys crawennog, llysiâu'r dial a chynnal a chadw llwybrau troed, gyda gwerth tua £3,000. Trio cael un contractwr i wneud y gwaith.
- CADW ddim yn caniatáu unrhyw waith cynnal a chadw ar y llwybr o amgylch y castell.
- Trwydded coed wedi ei ganiatáu gan Adnoddau Naturiol Cymru.

10. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed

- Cyfarfod nesaf o'r grŵp 21/5/14 am 7 o'r gloch.
- Angen cynnal a chadw yn y Cae Cymunedol, rhwng ystafell newid a maes chwarae plant o amgylch yr oferion chwarae.
- Diwrnod chwaraeon wedi ei drefnu ar 31/05 yn y Maes Chwarae. Mae yswiriant y Cyngor Cymuned (atebolrwydd cyhoeddus) yn cwmpasu digwyddiadau fel hyn yn y maes chwarae.
- Pod chwarae wedi cael ei gynnwys ar yswiriant y Cyngor Cymuned.
- Wedi bod yn llwyddiannus gyda grant Tidy Towns i gael mainc yn y Maes Chwarae
- Wedi trio am grant trwy "Crime Beat" er mwyn cael mwy o adnoddau i'r Play Pod.
- Prosiect celf o dan sylw i greu logo gyda'r plant Ysgol.
- Penderfynwyd yn unfrydol i roi rhodd i'r Grŵp Cymunedol. Cyng. D Jones i gael y manylion erbyn cyfarfod nesaf.

11. Cyfrifon

Taliadau, penderfynwyd talu:-

Anglesey Computers - £520.00

Dwr Cymru - £17.14

Incwm:

Grant ymddiriedolaeth - £1,900

Praesept cyntaf - £3,143.34

12. Gohebiaeth

Infois Anglesey Computer Solutions

Heddlu Gogledd Cymru, trechu Trosedd, grant £500

Cyngor Sir, dadgomisiynu gwasanaeth camerâu

Infois Ffenestri JW Windows

John Roberts, archwiliad mewnol, May 9fed

Cyngor Sir, Hyfforddiant Cod Ymddygiad 29/10/14

13. UFA:

- 13.1 Cyng. M Ellis - yn adrodd bod angen clirio ffos ger Bay View wrth gael gwared â'r coed helyg. Clerc i weithredu.

- 13.2 Taith feicio o gylch yr ardal, wedi digwydd 11/05/14, tua 60 wedi cymryd rhan.
13.3 Cyng. D Roberts - Mae angen trwsio rhai o'r llechi ar do'r safle bus ger Bont y Rhyd.
13.4 Cyngor Sir yn trefnu sesiwn Cod Ymddygiad, cymryd lle 29/10/14.

14. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad.
Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.35 o'r gloch.
Cyfarfod nesaf 11/06/14 i gynnwys y cyfarfod blynyddol.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad